# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 13 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(120)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 7 a 9 i 15. Cafodd cwestiynau 6 a 10 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 9 a 12 i 15. Cafodd cwestiynau 1 a 12 eu grwpio. Atebwyd cwestiwn 5 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd. Ni ofynnwyd cwestiwn 10.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

### 3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-13)

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**NDM5186 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-13 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 6 Mawrth 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo’r argymhelliad yn yr adroddiad y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid ceryddu Bethan Jenkins AC.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-13)

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**NDM5187 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-13 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 6 Mawrth 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo’r argymhellion yn yr adroddiad.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 5. Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**NDM5184 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru).

Cafodd y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) a’r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad ar 24 Hydref 2012.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad ar 21 Chwefror 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 6. Penderfyniad ariannol ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.41

**NDM5185 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.42

**NDM5181 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn penderfynu cefnogi'r egwyddor o gynnal gwrandawiadau cyn cadarnhau penodiadau cyhoeddus pwysig yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.25

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5188 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder nad yw cleifion yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y triniaethau a'r meddyginiaethau mwyaf newydd a mwyaf arloesol sydd ar gael i gleifion eraill ledled y DU;

2. Yn croesawu'r ffaith bod Cronfa Technolegau Iechyd Cymru wedi cael ei chreu, ond yn gresynu wrth y diffyg buddsoddiad mewn technolegau newydd, arloesol o'r dyraniad gwerth £5 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-2013;

3. Yn nodi bod y diwydiant fferyllol wedi buddsoddi £4.4 biliwn mewn gwaith ymchwil a datblygu yn y DU yn 2009, sydd yn fwy nag unrhyw sector diwydiant arall, ac yn credu bod GIG Cymru angen amgylchedd sy'n barod i dderbyn arloesedd er mwyn cystadlu'n effeithiol am dreialon clinigol ar lefel fyd-eang;

4. Yn credu y dylid ystyried gwariant ar feddyginiaethau modern yn fuddsoddiad yn hytrach nag yn gost. Felly, mae'n gresynu mai dim ond 0.5% o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru yn 2011 a wariwyd ar feddyginiaethau newydd a ddefnyddiwyd mewn gofal sylfaenol; a

5. Yn nodi y rhagwelir y bydd Cymru yn sicrhau arbedion o ryw £186 miliwn rhwng 2011 a 2015 oherwydd Colli Hawliau Unig Gynhyrchydd (LOE) ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi rhywfaint o'r arian hwn yn y Gronfa Technolegau Iechyd, i gefnogi'r ymgysylltiad â Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) fel y gall mwy o gleifion yng Nghymru fanteisio ar y triniaethau a'r meddyginiaethau diweddaraf.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 36 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'yng Nghymru', rhoi ', yn enwedig rhai gyda chlefydau prin,'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 36 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'gresynu' a  rhoi yn ei le:

a) wrth y diffyg buddsoddiad mewn technolegau newydd, arloesol o'r dyraniad gwerth £5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-2013;

b) nad yw'r Gronfa yn mynd i'r afael â hygyrchedd gwael triniaethau canser modern i gleifion yng Nghymru wrth gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 39 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cronfa Technolegau Iechyd Cymru yn ehangu mynediad at driniaethau canser modern ar gyfer cleifion yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod modd peryglu mynediad cleifion at feddyginiaethau a thriniaethau arloesol yn sgîl toriadau termau real Llywodraeth Cymru i gyllideb GIG Cymru nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 39 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gan na dderbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio gan y Cynulliad, a chan na dderbyniwyd y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.12

Cafodd y cyfarfod ei ohirio a'i ail-gynnull am 17.14 ar gyfer y Cyfnod Pleidleisio.

## 9. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**NDM5183 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Cynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer Sir Benfro - gwasanaethau diogel a chynaliadwy?

Daeth y cyfarfod i ben am 17:42

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:00, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013**